

2013 Rhif 12 (Cy. 5)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 (Cylchfan High Beech, Ger Cas-gwent, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed 10 Ionawr 2013

Yn dod i rym 21 Ionawr 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A466) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel “y cefnffyrdd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ionawr 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 (Cylchfan High Beech, Ger Cas-gwent, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 21 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw'r darnau o gefnffyrdd yr A48 a'r A466 wrth Gylchfan High Beech a'r ffyrdd sy'n arwain ati, ger Cas-gwent, yn Sir Fynwy, a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwys

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y 10 Ionawr 2013

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a gwaharddiad dros dro ar oddiweddyd.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A466 sy'n ymestyn o bwynt sy'n 29 o fetrau i'r de o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan High Beech hyd at bwynt ar Gefnffordd yr A48 sy'n 113 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan High Beech gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol gyfan Cylchfan High Beech.

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder 40 mya dros dro.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A466 sy'n ymestyn o ganolbwynt tanbont Mathern Road hyd at bwynt sy'n 29 o fetrau i'r de o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan High Beech.